Sut gallaf dalu cynhaliaeth plant?

asiantaeth cynnal plant

Talu

Am beth mae'r daflen hon yn sôn?

Mae'r daflen hon ar gyfer rhieni dibreswyl. Mae'n egluro sut i wneud taliadau cynhaliaeth plant ar gyfer eich plant drwy'r CSA. Mae hefyd yn egluro beth sy'n digwydd os na fyddwch yn gwneud taliad.

Mae'r daflen ar gyfer bob rhiant dibreswyl, os ydych yn gyflogedig, yn hunangyflogedig, yn ddi-waith neu wedi ymddeol.

Yn y daflen hon defnyddiwn rai termau safonol i egluro ein gwasanaethau a sut rydym yn gweithio. Mae'r eirfa ar y diwedd yn egluro'r rhain.

Dim ond gwybodaeth am achosion lle caiff cynhaliaeth plant ei gweithio allan drwy ddefnyddio'r cynllun a ddechreuwyd ar 3 Mawrth 2003 sydd yn y daflen hon. Yr enw ar hwn yw'r cynllun presennol. Defnyddiwn reolau gwahanol i weithio allan cynhaliaeth plant ar gyfer achosion a sefydlwyd cyn y dyddiad hwn. Am fwy o wybodaeth ewch i **www.asiantaethcynnalplant.gov.uk**

Gwybodaeth bwysig am y daflen hon

Canllaw yn unig yw'r daflen hon ac nid yw'n cynnwys pob sefyllfa. Rydym wedi gwneud ein gorau i sicrhau fod y wybodaeth yn y daflen hon yn gywir fel ar 19 Gorffennaf 2010, ond efallai nad yw'n adlewyrchu newidiadau i'r gyfraith neu ein gweithdrefnau ar ôl y dyddiad hwn. Efallai y byddwch am gael cyngor annibynnol cyn gwneud unrhyw benderfyniad ariannol yn seiliedig ar y daflen hon.

Amdanom ni

Yr Asiantaeth Cynnal Plant (CSA) yw gwasanaeth cynhaliaeth plant y Llywodraeth. Caiff ei ddarparu gan y Comisiwn Trefnu a Gorfodi Cynhaliaeth Plant.

Ein rôl yw sicrhau bod rhieni sy'n byw ar wahân i'w plant yn cyfrannu'n ariannol at eu cadw drwy dalu cynhaliaeth plant.

Rydym yn defnyddio proses safonol i weithio allan faint o gynhaliaeth plant sydd angen ei dalu ym mhob achos ac wedyn yn rheoli'r taliadau. Gallwn gymryd camau cyfreithiol i wneud yn siŵr bod y swm cywir yn cael ei dalu ar yr amser iawn.

Am fwy o help a gwybodaeth, ewch i'n gwefan **www.asiantaethcynnalplant.gov.uk** neu ffoniwch ni ar **0845 713 3133** neu **0845 713 8924** (ffôn testun). Neu gallwch ffonio ein llinell gymorth Gymraeg ar **0845 713 8091**. Ewch i dudalen 33 am fanylion am gostau galwadau ac amseroedd agor.

Os ydych am wneud trefniadau preifat ar gyfer cynhaliaeth plant, yn hytrach na drwy'r CSA, cysylltwch ag Opsiynau Cynhaliaeth Plant am wybodaeth ddiduedd a chymorth. Ewch i'w gwefan yn **www.cmoptions.org** neu gallwch eu ffonio ar **0800 988 0988** neu **0800 988 9888** (ffôn testun). Gallwch ofyn am gael siarad Cymraeg.

Cynnwys

Sut gallaf dalu cynhaliaeth plant drwy'r CSA? 6

Pa newidiadau i'm hamgylchiadau sy'n rhaid i mi ddweud wrth y CSA amdanynt? 8

Pa mor aml byddaf yn talu cynhaliaeth plant? 10

Sut gallaf dalu cynhaliaeth plant drwy orchymyn didynnu o enillion? 11

Beth sy'n digwydd os byddaf yn stopio gweithio i'm cyflogwr? 20

Beth sy'n digwydd os wyf yn hunangyflogedig? 21

Sut gallaf dalu drwy ddebyd uniongyrchol? 22

Beth sy'n digwydd os wyf yn cael budd-daliadau? 23

Sut wyf yn gwybod pryd i dalu? 24

Beth sy'n digwydd os bydd rhaid i mi dalu cynhaliaeth plant i fwy nag un rhiant â gofal? 28

Beth fydd yn digwydd os byddaf yn rhoi arian i'r rhiant â gofal am unrhyw reswm arall? 29

Beth sy'n digwydd os na allaf wneud taliad? 30

Pa gamau gall y CSA eu cymryd os na fyddaf yn gwneud taliad? 32

Ble gallaf gael mwy o help a gwybodaeth? 33

Sut gallaf dalu cynhaliaeth plant drwy'r CSA?

Y ffordd hwylusaf o dalu cynhaliaeth plant yw gwneud hynny'n uniongyrchol i'r rhiant â gofal. Gallwch wneud hyn drwy archeb sefydlog, sy'n golygu eich bod yn sefydlu taliad rheolaidd yn syth o'ch cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu yn uniongyrchol i gyfrif y rhiant â gofal.

Nid yw hyn yr un fath a chytundeb preifat, gan mai ni sydd wedi gweithio allan y swm sy'n rhaid ei dalu a gallwn gymryd camau os nad ydych yn talu. Os nad ydych chi a'r rhiant â gofal am dalu fel hyn, rhaid i chi dalu drwom ni. Yn y sefyllfa hon:

- os ydych yn **gyflogedig**, byddwn fel arfer yn gofyn i chi ein talu drwy ddebyd uniongyrchol (ewch i dudalen 22), neu byddwn yn cytuno gyda chi i gymryd yr arian yn uniongyrchol o'ch enillion neu bensiwn drwy orchymyn didynnu o enillion (ewch i dudalen 11)
- os ydych yn **hunangyflogedig**, byddwn fel arfer yn gofyn i chi drefnu debyd uniongyrchol er mwyn ein talu (ewch i dudalen 22)
- os ydych yn **cael budd-dal yn ymwneud ag incwm**, byddwn fel arfer yn cymryd yr arian yn uniongyrchol o'ch budd-daliadau cyn i chi eu cael (ewch i dudalen 23).

Pan gawn y taliad gennych, byddwn yn trosglwyddo'r swm cywir i gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu'r rhiant â gofal. Anelwn at drosglwyddo'r gynhaliaeth plant o fewn wythnos o'i chael.

Gallwn drefnu i chi wneud eich taliad cyntaf neu i wneud un taliad arbennig gyda cherdyn debyd neu gerdyn credyd, neu drwy fancio ar-lein.

Os nad oes gan un o'r rhieni gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu ac na allant agor un er mwyn talu neu gael cynhaliaeth plant, gallwch gysylltu â ni i drafod ffyrdd eraill o dalu neu gael cynhaliaeth.

Pa newidiadau i'm hamgylchiadau sy'n rhaid i mi ddweud wrth y CSA amdanynt?

Os bydd amgylchiadau'r naill riant yn newid, gall olygu y bydd angen newid y swm sy'n rhaid ei dalu. Felly dylech ddweud wrthym os oes newid i unrhyw wybodaeth a roddoch i ni er mwyn gweithio allan cynhaliaeth plant, fel swm yr incwm mae'r rhiant dibreswyl yn ei gael.

Yn enwedig, fel rhiant dibreswyl, **rhaid** i chi ddweud wrthym os:

- bydd eich cyfeiriad yn newid (**rhaid** i chi ddweud wrthym am hyn o fewn 7 diwrnod o'r newid)
- ydych yn talu cynhaliaeth plant drwy orchymyn didynnu o enillion a'ch bod yn gadael eich swydd. **Rhaid** i chi ddweud wrthym:

  – enw a chyfeiriad eich cyflogwr newydd (os o gwbl)
  – faint y disgwyliwch ei ennill, a'ch
  – rhif cyflogres (os o gwbl).

Rhaid i'r rhiant â gofal ddweud wrthym os oes newid i'r:

- nifer o blant sy'n byw gyda hwy ac sy'n rhaid i chi dalu cynhaliaeth plant ar eu cyfer, neu'r
- nifer o nosweithiau mae plentyn yn aros dros nos gyda chi yn rheolaidd.

Os byddwch yn methu â rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnom, neu os byddwch yn rhoi gwybodaeth i ni y gwyddoch sy'n ffug, gallwn fynd a chi i'r llys a gallech gael dirwy o hyd at £1,000. Mae hyn yn gymwys i unrhyw berson neu gorff sy'n ofynnol iddynt, yn ôl y gyfraith, i roi gwybodaeth – fel cyflogwyr a chyfrifwyr yn ogystal â rhieni.

Ni fydd pob newid mewn amgylchiadau yn golygu y byddwn angen newid y swm o gynhaliaeth plant sy'n rhaid ei dalu. Efallai na fyddwn yn newid swm y gynhaliaeth plant os bydd y newid i incwm wythnosol net rheolaidd y rhiant dibreswyl yn llai na 5%.

Pa mor aml byddaf yn talu cynhaliaeth plant?

Byddwn yn cytuno â chi a'r rhiant â gofal pryd a pha mor aml y byddwch yn gwneud taliadau. Bydd hyn fel arfer ar yr adeg pan fydd eich cyflog, pensiwn neu fudd-daliadau yn cael eu talu.

Yn gyffredinol mae'r rhan fwyaf o daliadau yn cael eu gwneud:

- bob wythnos – 52 o daliadau y flwyddyn
- bob pythefnos – 26 o daliadau y flwyddyn
- bob 4 wythnos – 13 o daliadau y flwyddyn, neu
- bob mis – 12 o daliadau y flwyddyn.

Sut gallaf dalu cynhaliaeth plant drwy orchymyn didynnu o enillion?

Os ydych mewn cyflogaeth, gallwch dalu cynhaliaeth plant yn uniongyrchol o'ch enillion drwy orchymyn didynnu o enillion. Mae'r arian yn dod allan o'ch enillion cyn i chi eu cael, felly nid oes rhaid i chi ei dalu o'ch tâl terfynol.

Os ydych yn aelod o Luoedd Arfog EM, gallwch hefyd dalu yn uniongyrchol o'ch enillion, ond bydd rhaid i chi ddefnyddio cais i ddidynnu o enillion, sy'n gweithio mewn ffordd debyg. Cysylltwch â ni am fwy o wybodaeth. Ewch i dudalen 33 am wybodaeth gyswllt.

Byddwn yn dweud wrth eich cyflogwr faint i'w gymryd o'ch enillion. Rhaid i'ch cyflogwr anfon y swm hwn atom ar eich rhan. Os byddant yn methu â gwneud hyn, gallwn fynd a hwy i'r llys.

Fel arfer bydd eich cyflogwr yn cymryd yr arian bob tro y cewch eich talu. Felly, os cewch eich talu yn wythnosol byddant yn cymryd arian bob wythnos. Os cewch eich talu yn fisol, byddant yn cymryd arian unwaith y mis.

Os bydd eich cyflogwr yn cymryd yr arian unwaith y mis, rhaid iddynt anfon yr arian hwn atom erbyn y 19eg diwrnod o'r mis sy'n dilyn y mis pryd cymerwyd yr arian o'ch enillion. (Er enghraifft, os cymerodd eich cyflogwr y gynhaliaeth plant o'ch enillion ym mis Chwefror, rhaid iddynt basio'r arian ymlaen atom erbyn 19eg Mawrth.)

Gall eich cyflogwr hefyd gymryd £1 yn ychwanegol bob tro maent yn cymryd cynhaliaeth plant o'ch enillion. Mae hyn tuag at eu costau gweinyddol.

Rhaid i'ch cyflogwr ddweud wrthych faint maent yn ei gymryd o'ch enillion, gan gynnwys unrhyw swm a gymerir ar gyfer costau gweinyddol. Cewch y wybodaeth hon ar eich slipiau cyflog. Rhaid iddynt wneud hyn cyn y dyddiad talu ar ôl yr un pan gymerwyd y swm, ar yr hwyraf.

Sut mae gorchymyn didynnu o enillion yn gweithio?

Mae gorchymyn didynnu o enillion yn cynnwys 2 ran.

- **Y gyfradd ddidynnu arferol** – Dyma'r swm o gynhaliaeth plant byddwn yn ei gymryd o'ch enillion net ym mhob cyfnod talu. Hwn yw'r swm o gynhaliaeth plant sy'n rhaid i chi ei dalu fel arfer, yn ogystal ag unrhyw swm tuag at unrhyw daliadau rydych wedi eu methu o'r blaen neu heb eu talu'n llawn.
- **Y gyfran enillion gwarchodedig** – Dyma'r swm rydych yn cael ei gadw ar gyfer eich costau byw eich hunan. Rydym yn ei weithio allan fel 60% o'ch enillion net ar ôl tynnu pethau fel treth incwm, Yswiriant Gwladol ac unrhyw arian a delir i gynllun pensiwn.

Byddwn yn gweithio allan faint yw'r gyfradd ddidynnu arferol a'r gyfran incwm gwarchodedig yn seiliedig ar y wybodaeth rydym wedi ei chael. Yna byddwn yn dweud wrthych chi a'ch cyflogwr faint yw'r symiau hyn.

Os ydych yn talu cynhaliaeth plant o dan y cynllun a gychwynnodd cyn 3 Mawrth 2003 (yr hen gynllun), byddwn yn gweithio allan yr enillion gwarchodedig mewn ffordd wahanol. Er mwyn cael gwybod am orchmynion didynnu o enillion o dan yr hen gynllun, darllenwch ein taflen *Talu cynhaliaeth plant yn uniongyrchol o'ch enillion* (CSA2034W). Ewch i'r dudalen olaf am fanylion.

Bydd eich cyflogwr yn parhau i gymryd cynhaliaeth plant o'ch enillion oni bai i ni ddweud wrthynt am stopio.

Am fwy o wybodaeth am sut rydym yn gweithio cynhaliaeth plant allan, darllenwch *Sut caiff cynhaliaeth plant ei gweithio allan?* (CSL303W). Ewch i'r dudalen olaf am fanylion.

Beth sy'n cyfrif fel 'enillion' ar gyfer gorchymyn didynnu o enillion?

Wrth drefnu gorchymyn didynnu o enillion, rydym yn ystyried y canlynol fel enillion:

- cyflog, ffioedd, bonws, comisiwn, tâl goramser ac unrhyw daliadau ar ben eich cyflog
- pensiwn preifat neu alwedigaethol, taliadau iawndal
- Tâl Salwch Statudol
- tâl salwch cytundebol
- tâl mamolaeth cytundebol (nid Tâl Mamolaeth Statudol)
- tâl tadolaeth cytundebol (nid Tâl Tadolaeth Statudol)
- tâl mabwysiadu cytundebol (nid Tâl Mabwysiadu Statudol)
- tâl colli swydd cytundebol (nid Tâl Diswyddo Statudol).

Mae tâl cytundebol yn golygu tâl sydd wedi ei gytuno arno rhyngoch chi a'ch cyflogwr sy'n ychwanegol ac ar ben eich tâl statudol. Tâl Statudol yw arian sydd gennych hawl cyfreithiol iddo.

Yr enillion a restrir uchod yw beth allwn gymryd didyniad ohonynt. Nid ydynt yr un fath a'r ffynonellau incwm a ddefnyddiwn i weithio allan eich incwm wythnosol net wrth weithio allan faint ddylech ei dalu.

Beth sydd ddim yn cyfrif fel enillion ar gyfer gorchymyn didynnu o enillion?

Nid ydym yn cyfrif y canlynol fel enillion ac ni ellir eu defnyddio ar gyfer gorchymyn didynnu o enillion:

- arian a delir i chi gan adran gyhoeddus o Lywodraeth Gogledd Iwerddon neu unrhyw wlad y tu allan i'r DU
- unrhyw bensiwn, lwfans neu fudd-dal nawdd cymdeithasol
- Credydau Treth
- unrhyw bensiwn neu lwfans a delir am anabledd
- Pensiwn Gofynnol Gwarantedig o dan y Ddeddf Pensiynau Nawdd Cymdeithasol 1975
- Tâl Mamolaeth Statudol
- Tâl Tadolaeth Statudol
- Tâl Mabwysiadu Statudol
- Tâl Diswyddo Statudol.

Os bydd yr unig enillion a dderbyniwch yn disgyn i'r categorïau hyn, ni allwch dalu drwy orchymyn didynnu o enillion.

Sut fydd fy nghyflogwr yn gwybod bod rhaid iddynt gymryd cynhaliaeth yn syth o fy enillion?

Byddwn yn anfon gorchymyn didynnu o enillion i'ch cyflogwr i ddweud wrthynt faint i gymryd o'ch enillion neu bensiwn galwedigaethol. Rhaid iddynt roi'r swm hwn i ni.

Bydd y gorchymyn didynnu o enillion yn cynnwys y wybodaeth ganlynol:

- eich enw a chyfeiriad
- enw eich cyflogwr
- eich man gweithio, y math o waith rydych yn ei wneud a'ch rhif cyflogres, os o gwbl
- eich rhif Yswiriant Gwladol
- y swm neu'r symiau sy'n rhaid eu cymryd, a dyddiadau unrhyw newid i'r symiau hyn yn y 52 wythnos nesaf
- eich cyfran enillion gwarchodedig
- cyfeiriad y swyddfa CSA sy'n rhaid i'ch cyflogwr anfon y taliadau iddi.

Bob blwyddyn, byddwn yn anfon llythyr atoch chi a'ch cyflogwr sy'n eich atgoffa faint ddylai gael ei dalu a phryd.

Os bydd eich amgylchiadau yn newid, byddwn yn anfon gorchymyn didynnu o enillion diwygiedig atoch chi a'ch cyflogwr.

Beth sy'n digwydd os bydd fy nghyflogwr yn peidio neu'n methu â chymryd y swm llawn?

Os na fydd eich cyflogwr yn cymryd y swm llawn yn uniongyrchol o'ch enillion neu bensiwn, byddwn yn gofyn pam. Gallai fod rheswm da am hyn – er enghraifft, os nad oeddech wedi ennill digon yn y cyfnod talu i allu cymryd y swm llawn ar ôl treth incwm, taliadau Yswiriant Gwladol ac unrhyw arian sydd ei angen i dalu am orchmynion llys eraill.

Yn yr amgylchiadau hyn, rhaid i'ch cyflogwr gymryd cymaint â phosibl o'ch enillion ond gan adael eich cyfran enillion gwarchodedig ar ôl fel bod gennych ddigon o arian i fyw arno. Gelwir unrhyw wahaniaeth rhwng y swm gallant ei gymryd a'r swm o gynhaliaeth plant sydd ei angen yn ddiffyg.

Caiff y diffyg hwn ei ddwyn ymlaen i'r tro nesaf cewch eich talu a chaiff ei ychwanegu at y swm rheolaidd o gynhaliaeth plant y gofynnwn i'ch cyflogwr ei gymryd.

Os bydd eich incwm yn is na'r gyfran enillion gwarchodedig yn rheolaidd, dylech ddweud wrthym gan y gallwn fod angen ail edrych ar eich cyfrifiad cynhaliaeth plant. Os na fyddwch yn trefnu i dalu'r diffyg, gallwn fynd a chi i'r llys.

Os na fydd eich cyflogwr yn cymryd y swm llawn o gynhaliaeth plant, ac na allant roi reswm da am hyn, gallwn fynd a'ch cyflogwr i'r llys a'i dirwyo. Bydd dal yn rhaid i chi dalu'r gynhaliaeth plant sy'n ddyledus gennych.

Gall cyflogwyr gael mwy o wybodaeth am hyn ar ein gwefan yn **www.asiantaethcynnalplant.gov.uk** neu yn ein taflen i gyflogwyr, *Beth yw fy swyddogaeth wrth helpu fy ngweithwyr i dalu cynhaliaeth plant?* (CSL313W). Ewch i'r dudalen olaf am fanylion.

A gaiff fy ngwybodaeth ei thrin yn gyfrinachol?

Caiff. Mae bob gwybodaeth am gynhaliaeth plant yn gyfrinachol, felly ni all eich cyflogwr adnabod enw a chyfeiriad y rhiant â gofal a'ch plant.

Beth sy'n digwydd os bydd rhaid i'm cyflogwr gymryd arian o'm henillion yn barod ar gyfer gorchmynion llys eraill?

Gall y llysoedd wneud sawl gorchymyn gwahanol a allai olygu bod rhaid i'ch cyflogwr gymryd arian yn syth o'ch enillion mewn ffordd debyg i'n gorchymyn didynnu o enillion.

Yng Nghymru a Lloegr, mae'r rhain yn cynnwys:

- gorchmynion atafaelu enillion, a
- gorchmynion atafaelu enillion am Dreth Cyngor.

Yn yr Alban, mae'r rhain yn cynnwys:

- restiad enillion
- restiad cynhaliaeth cyfredol, a
- gorchmynion restiad ar y cyd.

Mae rheolau i'w dilyn fel bod cyflogwyr yn gwybod pa arian i'w gymryd yn gyntaf. Yng Nghymru a Lloegr, byddant yn cychwyn gyda'r gorchymyn cyntaf. Yn yr Alban, bydd gorchymyn didynnu o enillion yn cael ei gymryd yn gyntaf, cyn unrhyw orchymyn arall. Yna dylent ddilyn gorchmynion diweddarach gan ddefnyddio unrhyw enillion sydd gennych ar ôl wedi iddynt wneud y didyniad o dan y gorchymyn cyntaf.

Beth sy'n digwydd os byddaf yn stopio gweithio i'm cyflogwr?

Rhaid i chi ddweud wrthym o fewn wythnos os ydych yn talu cynhaliaeth plant o dan orchymyn didynnu o enillion a'ch bod yn:

- stopio gweithio i'ch cyflogwr
- newid swydd
- mynd yn ddi-waith, neu
- yn mynd yn hunangyflogedig.

Hefyd, rhaid i chi ddweud wrthym:

- enw a chyfeiriad eich cyflogwr newydd, os o gwbl
- faint y disgwyliwch ei ennill, ac
- eich rhif cyflogres neu rif gweithiwr, os o gwbl.

Rhaid i chi ddweud wrthym am unrhyw o'r newidiadau hyn o fewn wythnos i bryd byddant yn dod i rym. Mae'n drosedd peidio â dweud wrthym.

Hefyd, rhaid i'ch cyflogwr ddweud wrthym os byddwch yn stopio gweithio iddynt.

Os byddwch yn symud i weithio i gyflogwr gwahanol, byddwn fel arfer yn trefnu gorchymyn didynnu o enillion newydd pan fydd gennym yr holl wybodaeth newydd sydd ei hangen arnom. Os yw'ch enillion wedi cynyddu neu leihau, gallwn hefyd newid y swm o gynhaliaeth sydd ei angen.

Os na allwn bellach ddefnyddio gorchymyn didynnu o enillion, gallwn drefnu ffordd arall i chi dalu cynhaliaeth plant.

Beth sy'n digwydd os wyf yn hunangyflogedig?

Os ydych yn hunangyflogedig, bydd yn rhaid i chi barhau i dalu cynhaliaeth plant fel pob rhiant dibreswyl arall. Gallwch naill ai dalu'r rhiant â gofal yn uniongyrchol drwy archeb sefydlog, neu gallwch drefnu debyd uniongyrchol drwom ni.

Sut gallaf dalu drwy ddebyd uniongyrchol?

Mae talu drwy ddebyd uniongyrchol yn gyflym a chyfleus. Gallwch ein ffonio i drefnu debyd uniongyrchol dros y ffôn neu bydd angen i chi lenwi rhai ffurflenni, a gallwn anfon y rhain atoch. Yna, byddwn yn pasio'r ffurflenni i'ch banc neu gymdeithas adeiladu.

Pan gawn y taliad gennych, byddwn yn trosglwyddo'r swm iawn i gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu'r rhiant â gofal. Rydym yn anelu at drosglwyddo cynhaliaeth plant o fewn wythnos o'i chael.

Os nad oes gennych chi, neu'r rhiant arall, gyfrif ac os na allwch agor cyfrif i dalu neu gael cynhaliaeth plant, cysylltwch â'n llinellau cymorth. Ewch i dudalen 33 am fanylion.

Beth sy'n digwydd os wyf yn cael budd-daliadau?

Os ydych ar un o'r budd-daliadau canlynol, ac yn talu'r gyfradd cynhaliaeth plant unffurf o £5 (waeth faint o blant sydd dan sylw) fel arfer bydd y gynhaliaeth plant yn cael ei thynnu yn syth o'r taliadau hynny cyn iddynt gael eu talu i chi.

- Budd-daliadau yn ymwneud ag incwm – Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm.
- Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar gyfraniadau
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar gyfraniadau
- Credyd Pensiwn
- Pensiwn y Wladwriaeth
- Budd-dal Analluogrwydd
- Lwfans Hyfforddi
- Taliadau Cynllun lawndal y Lluoedd Arfog
- Pensiwn Rhyfel
- Lwfans Profedigaeth

Os oes gennych bartner sy'n cael budd-daliadau sy'n ymwneud ag incwm neu Gredyd Pensiwn, bydd y gynhaliaeth plant yn cael ei chymryd cyn i'r budd-dal gael ei dalu i'ch partner. Golyga hyn y byddwch chi neu'ch partner yn cael swm llai o fudd-dal.

Os na ellir cymryd y gynhaliaeth plant o'ch budd-daliadau gan fod arian arall yn cael ei gymryd yn barod, bydd rhaid i chi siarad â ni ynglŷn â gwneud trefniadau eraill i dalu'r gynhaliaeth plant.

Sut wyf yn gwybod pryd i dalu?

Os ydych yn gwneud taliadau i ni, byddwn yn cysylltu â chi i wneud trefniadau talu a dweud wrthych pryd i dalu. Gwnawn hyn drwy anfon amserlen gasglu atoch.

Beth yw amserlen gasglu?

Tabl yw amserlen gasglu sy'n dangos manylion faint o gynhaliaeth plant y byddwch yn ei dalu a phryd mae angen i chi wneud taliadau. Os ydych yn talu'r rhiant â gofal yn uniongyrchol, efallai y byddai'n ddefnyddiol i chi gytuno ar eich amserlen taliadau eich hunain. Gall hyn eich helpu chi a'r rhiant arall i wybod faint o gynhaliaeth plant sy'n ddyledus ar ba ddyddiad.

Sut mae amserlen gasglu yn edrych?

Ewch i dudalen 26. Dangosir pob swm fel swm a delir bob wythnos, pythefnos, pedair wythnos neu fis, yn dibynnu ar ba mor aml rydych wedi cytuno i dalu.

Mae'r amserlen gasglu ar gyfer 12 mis fel arfer.

Os gwyddom y bydd newidiadau i'r swm sy'n rhaid i chi dalu o fewn y 12 mis nesaf, bydd yr amserlen yn dangos hyn. Er enghraifft, efallai y byddwch, i gychwyn, yn talu am daliadau blaenorol rydych wedi eu methu (a elwir weithiau yn 'ôl-ddyledion'), yn ogystal â'ch taliadau cynhaliaeth plant.

Os byddwch yn talu'r ôl-ddyledion i gyd cyn diwedd y 12 mis, bydd eich amserlen gasglu yn dangos pa bryd i dalu swm gwahanol. Bydd pob llinell o'r amserlen yn dangos:

- faint i dalu
- y nifer o weithiau bydd rhaid i chi dalu swm penodol
- y dyddiad y bydd y taliadau'n dechrau, a
- hyd at ba ddyddiad y dylid gwneud y taliad.

Tua 28 diwrnod cyn dyddiad y taliad olaf a ddangosir ar yr amserlen gasglu, byddwn yn anfon amserlen newydd atoch ar gyfer y cyfnod cynhaliaeth plant nesaf. Byddwn hefyd yn anfon amserlen gasglu newydd atoch os bydd swm eich cynhaliaeth plant yn newid am unrhyw reswm.

Ble gallaf gael gwybod mwy?

Er mwyn cael gwybod mwy am eich amserlen gasglu, gallwch ein ffonio neu ysgrifennu atom – mae'r rhif ffôn a'r cyfeiriad ar ben yr amserlen gasglu.

Dylech sicrhau bod eich **rhif cyfeirnod** wrth law pan fyddwch yn ffonio, neu dylech ei gynnwys yn eich llythyr. Mae'ch rhif cyfeirnod ar bob llythyr rydym wedi'i anfon atoch neu ar ben eich amserlen gasglu. Os byddwch yn ein ffonio, bydd angen eich rhif Yswiriant Gwladol arnoch hefyd – efallai y bydd hwn yr un fath a'ch rhif cyfeirnod.

Amserlen gasglu

Y cyfanswm sy'n rhaid i chi ei dalu ar ôl i ni dynnu unrhyw daliadau a wnaed yn ormod, a chyfuno:

- eich taliadau cynhaliaeth plant rheolaidd
- unrhyw daliadau sy'n ddyledus gennych, ac
- unrhyw daliadau eraill rydych yn gyfrifol amdanynt.

Y dyddiad pryd bryd rhaid i chi ddechrau talu'r gynhaliaeth plant.

Cyfanswm i gael ei dalu gennych	Pa mor aml i dalu	Nifer o daliadau	Dyddiad cychwyn talu hyn	Dyddiad gorffen talu hyn	

Faint o weithiau sy'n rhaid i chi dalu swm penodol.

Pa mor am dylech dalu cynhaliaeth plant.

Rhaid i chi dalu'r gynhaliaeth plant hyd at a chan gynnwys y dyddiad hwn. Ar ôl hynny, efallai y byddwn yn anfon amserlen casglu newydd atoch.

Y swm o gynhaliaeth plant sy'n rhaid i chi ei dalu.

Taliadau heblaw cynhaliaeth plant sy'n rhaid i chi eu talu, fel:

- cost prawf DNA, neu
- costau llys.

Swm cynhaliaeth rheolaidd i'w dalu	**Ac ôl-ddyledion cynhaliaeth**	**Ac unrhyw rwymedigaethau eraill**	**Llai unrhyw or-daliad**

Y swm sy'n rhaid i chi ei dalu ar gyfer unrhyw daliadau rydych wedi eu methu o'r blaen.

Y swm o gynhaliaeth plant rydych wedi ei dalu yn ormod.

Beth sy'n digwydd os bydd rhaid i mi dalu cynhaliaeth plant i fwy nag un rhiant â gofal?

Os ydych yn talu cynhaliaeth plant i fwy nag un rhiant â gofal trwom ni, byddwn yn gweithio allan cyfanswm y gynhaliaeth plant fydd rhaid i chi dalu trwom ni. Byddwn wedyn yn rhannu'r cyfanswm hwn yn gyfartal fel bod yr un swm yn cael ei dalu ar gyfer pob plentyn. Gallwch wneud taliadau o'r cyfanswm drwom ni, ac fe fyddwn ni wedyn yn trosglwyddo'r swm cywir i bob rhiant â gofal neu gallwch dalu pob rhiant â gofal yn uniongyrchol.

Weithiau, gall rhiant dibreswyl fod yn talu cynhaliaeth plant i fwy nag un rhiant â gofal, drwom ni. Hefyd gallant fod yn talu un neu fwy o rieni â gofal drwy drefniant preifat ar yr un pryd. Yn y sefyllfa hon, ni allwn ystyried yr hyn a dalwch drwy drefniadau preifat wrth weithio allan faint sy'n rhaid i chi ei dalu drwom ni. Ond os oes gennych orchymyn llys ar gyfer cynhaliaeth plant, gallwn gymryd hwnnw i ystyriaeth.

Beth fydd yn digwydd os byddaf yn rhoi arian i'r rhiant â gofal am unrhyw reswm arall?

Mewn rhai achosion, bydd rhiant dibreswyl sydd fel arfer yn talu cynhaliaeth plant drwom ni yn cytuno i dalu arian naill ai yn uniongyrchol i'r rhiant â gofal, neu ar eu cyfer, am reswm penodol. Os byddwch yn gwneud hyn, gallwch ofyn i ni ystyried y taliad hwn tuag at swm y gynhaliaeth plant sy'n rhaid i chi ei dalu neu unrhyw ôl-ddyledion sydd arnoch.

Efallai y gallwn ystyried y taliad hwn os cafodd ei wneud, drwy gytundeb â'r rhiant â gofal, am un o'r rhesymau canlynol:

- er mwyn talu morgais neu fenthyciad a gymerwyd i brynu neu dalu am atgyweiriadau neu welliannau hanfodol i'r cartref ble mae'r plentyn yn byw, ac sydd wedi ei sicrhau yn erbyn y cartref hwnnw
- er mwyn talu rhent neu dreth cyngor am y cartref ble mae'r plentyn yn byw
- er mwyn talu am nwy, dŵr neu drydan ar gyfer y cartref ble mae'r plentyn yn byw, neu
- er mwyn gwneud atgyweiriadau hanfodol i system wresogi neu strwythur y cartref ble mae'r plentyn yn byw.

Os ydych yn rhoi arian yn rheolaidd i'r rhiant â gofal am unrhyw reswm arall – fel talu biliau bob mis – yna dylech ystyried newid sut rydych yn trefnu eich cynhaliaeth plant. Gallech wneud trefniadau preifat heb orfod defnyddio'r CSA. Cewch fwy o wybodaeth drwy gysylltu ag Opsiynau Cynhaliaeth Plant. Gallwch fynd i'w gwefan yn **www.cmoptions.org** neu gallwch eu ffonio ar **0800 988 0988** neu **0800 988 9888** (ffôn testun). Gallwch ofyn am gael siarad Cymraeg.

Beth sy'n digwydd os na allaf wneud taliad?

Os gwyddoch y byddwch am fethu taliad cynhaliaeth plant neu am fod yn hwyr yn talu, dylech ddweud wrthym ar unwaith.

Os ydych yn hwyr yn gwneud taliad neu wedi methu taliad yn barod, gallwch dalu gyda cherdyn credyd neu gerdyn debyd neu drwy fancio ar-lein. Ffoniwch ein llinell gymorth genedlaethol ar unwaith ar **0845 713 3133, 0845 713 8924** (ffôn testun) neu'r llinell gymorth Gymraeg ar **0845 713 8091** os ydych yn hwyr gyda'ch taliadau.

Beth fydd y CSA yn ei wneud os na allaf neu na fyddaf yn talu?

Os na allwch dalu'r swm y gofynnir amdano gan fod eich amgylchiadau wedi newid – er enghraifft, gan eich bod wedi newid swydd neu wedi dod yn ddi-waith – dywedwch wrthym ac efallai y byddwn yn gallu newid y swm y gofynnir amdano. Ond os ydych yn gwrthod talu, byddwn yn cymryd camau i sicrhau eich bod yn talu. Os ydych yn talu drwom ni, gallwn gymryd camau ar unwaith. Os gwnaethoch chi a'r rhiant arall gytuno y byddech yn eu talu'n uniongyrchol ar ôl iddynt wneud cais i ni, a'ch bod yn methu â chadw at y trefniant hwnnw, gall y rhiant â gofal gysylltu â ni a gofyn i ni weithredu.

Byddwn yn ceisio cysylltu â chi dros y ffôn i ddechrau. Os na allwn gysylltu â chi dros y ffôn, byddwn yn ysgrifennu atoch i'ch rhybuddio y gallwn ddechrau cymryd camau gorfodi oni fyddwch:

- yn cytuno i dalu swm llawn y gynhaliaeth plant a fethwyd gennych, neu
- yn cadw at y cytundeb a wnaethoch eisoes.

Yna bydd gennych wythnos i wneud hyn. Os na fyddwch yn cysylltu â ni ac yn cytuno i dalu'r hyn sy'n ddyledus gennych, gallwn ddechrau cymryd camau yn eich erbyn.

Bydd y cam a gymerwn yn dibynnu ar amgylchiadau pob achos, ond gallai olygu mynd i'r llys.

Os ydych yn gweithio i gyflogwr, ac nad yw cynhaliaeth plant yn cael ei thynnu'n barod o'ch enillion, ein cam cyntaf yw trefnu gorchymyn didynnu o enillion. Byddwn yn dweud wrth eich cyflogwr faint i'w gymryd o'ch enillion. Rhaid i'ch cyflogwr gymryd y swm hwn a'i anfon atom ar eich rhan.

Ewch i dudalen 11 am fwy o fanylion am sut mae gorchmynion didynnu o enillion yn gweithio.

Pa gamau gall y CSA eu cymryd os na fyddaf yn gwneud taliad?

Mae gennym bwerau cyfreithiol i hawlio unrhyw gynhaliaeth plant sy'n ddyledus gennych.

Byddwch yn derbyn rhybudd ffurfiol ymlaen llaw os byddwn am gymryd camau os na fyddwch yn talu'r swm sy'n ddyledus gennych.

Gallwn gymryd arian o'ch enillion drwy ddefnyddio gorchymyn didynnu o enillion. Gallwn gymryd yr arain yn uniongyrchol o'ch cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu drwy ddefnyddio gorchymyn didynnu. Gallwn sefydlu gorchymyn didynnu i gymryd taliadau rheolaidd neu un cyfandaliad. Gall y banc neu gymdeithas adeiladu godi tâl gweinyddu am bob didyniad byddant yn ei wneud. Nid oes raid i ni gael eich cytundeb i wneud hyn.

Gallwn hefyd gymryd camau drwy'r llysoedd. Mae'n gostus mynd drwy'r llysoedd a gallech orfod talu ein costau cyfreithiol ni yn ogystal â'ch rhai chi yn y pen draw, gallech golli eich trwydded gyrru, gorfod gwerthu eich cartref neu asedau eraill, neu hyd yn oed fynd i'r carchar. Ond, cyn i ni fynd a chi i'r llys, byddwn wastad yn ystyried:

- lles eich plant, ac
- unrhyw galedi y dywedwch wrthym amdano.

Os byddwch eisiau cael gwybod mwy am y pwerau y gallwn eu defnyddio i sicrhau eich bod yn talu, yna dylech ddarllen *Pa gamau gall yr Asiantaeth Cynnal Plant eu cymryd os na fydd rhieni'n talu?* (CSL306W). Ewch i'r dudalen olaf am fanylion.

Ble gallaf gael mwy o help a gwybodaeth?

Os ydych eisiau gwybod mwy am gynhaliaeth plant a sut rydym yn ei gweithio allan, ewch i'n gwefan yn **www.asiantaethcynnalplant.gov.uk**. Gallwch lawr-lwytho ein taflenni o'r wefan a hefyd gweld faint allai cynhaliaeth plant fod yn eich sefyllfa chi, drwy ddefnyddio ein cyfrifydd ar-lein. Canllaw yn unig yw'r cyfrifydd, ac ni fyddwn yn cadw unrhyw wybodaeth a roddwch wrth ei ddefnyddio.

Os byddwch am siarad gyda rhywun am eich achos, dylech ffonio'r rhif ar ochr dde top y llythyr diwethaf a dderbynioch gennym. Hwn yw rhif y swyddfa sy'n delio â'ch achos. Neu, gallwch ffonio ein llinell gymorth Gymraeg ar **0845 713 8091** sydd ar agor o 9am i 5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Os nad oes gennych achos gyda ni neu os na allwch ddod o hyd i lythyr diweddar, gallwch ffonio'n llinell gymorth genedlaethol. Ni fydd gan y person sy'n cymryd yr alwad eich manylion personol ac felly ni allant ateb cwestiynau penodol am eich achos. Fodd bynnag, gallant eich helpu gydag unrhyw beth cyffredinol sy'n ymwneud â chynhaliaeth plant. Gallant hefyd roi rhif ffôn y swyddfa sy'n delio â'ch achos os byddwch am ofyn cwestiynau penodol.

Gallwch ffonio'r llinell gymorth genedlaethol ar **0845 713 3133** o 8am i 8pm o ddydd Llun i ddydd Gwener, ac o 9am i 5pm ar ddydd Sadwrn. Neu, gallwch ffonio ein llinell gymorth Gymraeg ar **0845 713 8091** sydd ar agor o 9am i 5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Sicrhewch fod eich Rhif Yswiriant Gwladol wrth law pan fyddwch yn ffonio.

Efallai y caiff rhai galwadau eu recordio er mwyn i ni gadw golwg ar ein gwasanaethau a hyfforddi staff.

Gwasanaethau ffôn testun

Os oes gennych anawsterau gyda siarad neu glywed, mae gwasanaeth ffôn testun ar gael ar **0845 713 8924**. Gallwch gysylltu â ni yn Gymraeg ar ffôn testun hefyd – y rhif yw **0845 713 8099**.

Mae ffôn testun ar gyfer pobl sy'n ei chael yn anodd i siarad neu glywed yn glir. Os nad oes gennych ffôn testun, efallai y bydd un ar gael mewn rhai llyfrgelloedd neu swyddfeydd Cyngor Ar Bopeth. **Nid** yw ffôn testun yn gallu derbyn negeseuon testun o ffôn symudol.

Ieithoedd eraill

Os nad Cymraeg neu Saesneg yw eich iaith gyntaf, gallwch ddefnyddio eich cyfieithydd eich hun neu un a ddarperir gennym ni.

Costau ffonio

Ni ddylai galwadau o linellau daear BT i rifau **0845** gostio mwy na 4c y munud. Efallai y bydd yn rhaid i chi dalu mwy os byddwch yn defnyddio cwmni ffôn arall neu ffôn symudol, neu os ydych yn ffonio o dramor. Gall galwadau o ffôn symudol gostio hyd at 40c y munud, felly dylech gysylltu â darparwr eich gwasanaeth i gael gwybod faint yw cost y galwadau hyn.

Gwybodaeth ar ffurfiau eraill

Mae'r daflen hon hefyd ar gael mewn ieithoedd eraill, mewn Braille ac ar dâp sain. Gallwch gael gwybodaeth ar y ffurfiau hyn ar-lein neu drwy gysylltu â'n llinellau cymorth.

Mae gennym hefyd fersiynau print bras o'r daflen hon sydd ar gael i chi ei lawr-lwytho o'n gwefan, sef **www.asiantaethcynnalplant.gov.uk**.

Ein taflenni

Beth yw cynhaliaeth plant a sut mae'n effeithio arnaf i?
(Cyfeirnod: CSL301W) I bob rhiant

Sut gallaf gwyno am y gwasanaeth a gaf gan yr Asiantaeth Cynnal Plant?
(Cyfeirnod: CSL308W) I bob rhiant

Sut caiff cynhaliaeth plant ei gweithio allan?
(Cyfeirnod: CSL303W) I bob rhiant

Beth fydd yn digwydd os bydd rhywun yn gwadu bod yn rhiant i blentyn?
(Cyfeirnod: CSL304W) I bob rhiant

Sut gallaf apelio yn erbyn penderfyniad cynhaliaeth plant?
(Cyfeirnod: CSL307W) I bob rhiant

Mae fy achos yn symud i'r cynllun cynhaliaeth plant a gyflwynwyd yn 2003 – beth fydd yn newid?
(Cyfeirnod: CSL310W) I unrhyw riant y mae eu hachos yn symud i'r cynllun presennol

Sut mae'r Asiantaeth Cynnal Plant yn defnyddio ac yn storio gwybodaeth?
(Cyfeirnod: CSL311W) I bob rhiant

Sut gallaf dalu cynhaliaeth plant?
(Cyfeirnod: CSL305W) I rieni dibreswyl

Sut byddaf yn cael cynhaliaeth plant?
(Cyfeirnod: CSL314W) I rieni â gofal

Pa gamau gall yr Asiantaeth Cynnal Plant eu cymryd os na fydd rhieni'n talu?
(Cyfeirnod: CSL306W) I bob rhiant

Sut gall achos cynhaliaeth plant symud yn ei flaen

Mae'r diagram hwn yn dangos sut y gall achos cynhaliaeth plant symud yn ei flaen. Mae'r daflen hon yn canolbwyntio ar ran o'r broses a amlygir yma.

Gwybodaeth a chyfarwyddyd

Gall y CSA ddarparu gwybodaeth am sut mae'r broses yn gweithio, beth fydd angen i rieni ei wneud a beth allai fod yn swm derbyniol o gynhaliaeth yn eu hachos hwy.

Gwneud cais

Bydd achos yn cychwyn yn swyddogol pan fydd rhiant yn gwneud cais i ni drefnu taliadau cynhaliaeth plant.

Os bydd newid ym mywyd y naill riant neu'r llall, gall hyn effeithio ar y swm o gynhaliaeth plant sydd raid ei dalu, gallwn ail edrych ar eich achos – felly rhowch wybod i ni.

Casglu gwybodaeth a chyfrifo

Er mwyn gweithio allan faint o gynhaliaeth plant y dylid ei dalu, mae'n angenrheidiol i ni gasglu gwybodaeth bwysig. Byddwn yn gofyn i'r ddau riant ddarparu gwybodaeth benodol. Pan fyddwn wedi cael hyn, byddwn yn gweithio'r gynhaliaeth plant allan.

Talu

Bydd y rhiant dibreswyl yn talu'r swm a gytunwyd ar y dyddiad y cytunwyd ac yn y ffordd a gytunwyd. Gall hyn fod yn uniongyrchol i'r rhiant â gofal, neu i ni. Byddwn wedyn yn pasio'r taliadau ymlaen.

Gorfodi

Os na wneir taliadau ar amser, gallwn gymryd camau i orfodi taliadau.

Geirfa

Amserlen gasglu

Tabl sy'n dangos manylion eich taliadau cynhaliaeth plant. Mae'n dangos faint o gynhaliaeth plant sy'n ddyledus ac ar ba ddyddiad.

Budd-dal yn ymwneud ag incwm

Yn holl daflenni'r CSA, budd-dal yn ymwneud ag incwm yw Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm a lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm.

Cynhaliaeth plant

Arian a delir gan y rhiant dibreswyl i'r rhiant â gofal i helpu i dalu am gostau byw eu plentyn o ddydd i ddydd.

Gorchymyn didynnu

Dyma sut rydym yn cymryd y gynhaliaeth plant sy'n ddyledus gan y rhiant dibreswyl, yn uniongyrchol o'u cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu. Gallwn sefydlu gorchymyn didynnu i gymryd taliadau rheolaidd neu un cyfandaliad. Gall y banc neu gymdeithas adeiladu godi tâl gweinyddu am bob didyniad byddant yn ei wneud. Nid oes raid i ni gael cytundeb y rhiant dibreswyl i wneud hyn na gofyn i'r llys am ganiatâd.

Gorchymyn didynnu o enillion

Un o'r ffyrdd y byddwn yn ei ddefnyddio fel arfer er mwyn trefnu taliadau os yw'r rhiant dibreswyl yn gyflogedig. O dan orchymyn didynnu o enillion, byddwn yn gofyn i gyflogwr y rhiant dibreswyl gymryd cynhaliaeth plant yn uniongyrchol o enillion y rhiant dibreswyl a'i hanfon atom.

Gallwn hefyd drefnu gorchymyn didynnu o enillion os yw'r rhiant dibreswyl yn gyflogedig a'u bod heb gadw at ddulliau talu eraill neu os byddant wedi methu â chytuno ar ddull talu.

Plentyn

At ddibenion cynhaliaeth plant, mae plentyn yn golygu unrhyw un sydd o dan 16 oed, neu rywun sydd rhwng 16 a 19 oed:

- sydd ddim nawr, nac erioed wedi bod yn briod neu mewn perthynas sifil, ac
- sydd mewn addysg llawn amser nad yw'n addysg uwch.

Fodd bynnag, os yw budd-dal plant yn dal i gael ei dalu, gall rhywun o dan 19 oed gael eu hystyried fel plentyn at ddibenion cynhaliaeth plant hyd yn oed os ydynt mewn addysg llawn amser nad yw'n addysg uwch.

Rhiant â gofal

Y rhiant neu'r gofalwr sy'n byw gyda'r plentyn fel arfer ac sydd felly yn talu am y rhan fwyaf o gostau byw'r plentyn o ddydd i ddydd. Mewn rhai achosion gall fod yn nain, taid, gwarcheidwad neu'n aelod arall o'r teulu – sef y 'person â gofal', yn hytrach na'r rhiant â gofal.

Rhiant dibreswyl

Y rhiant nad yw'n byw gyda'r plentyn fel arfer.

Mae'r wybodaeth o daflenni'r CSA hefyd ar gael mewn ieithoedd eraill, mewn print bras, mewn Braille ac ar dâp sain.

Gallwch gael unrhyw o'n taflenni:

- trwy ffonio **0845 713 3133** (mae'r llinell ar agor o 8am i 8pm o ddydd Llun i ddydd Gwener ac o 9am i 5pm ar ddydd Sadwrn)
- trwy ffonio'r Uned Gymraeg ar **0845 713 8091** (mae'r llinell ar agor o 9am i 5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener)
- drwy ddefnyddio ffôn testun ar **0845 713 8924**, neu
- o'n gwefan sef **www.asiantaethcynnalplant.gov.uk**

Ble rhoddir rhifau ffôn testun, mae'r rhain ar gyfer pobl sy'n ei chael yn anodd siarad neu glywed yn glir. Os nad oes gennych ffôn testun, efallai y bydd un ar gael mewn rhai llyfrgelloedd neu swyddfeydd Cyngor Ar Bopeth. Nid yw ffôn testun yn gallu derbyn negeseuon testun o ffôn symudol.

CSL305W
Gorffennaf 2010
© Asiantaeth Cynnal Plant
Gwasanaeth a ddarperir gan y Comisiwn Trefnu
a Gorfodi Cynhaliaeth Plant
ISBN: 978-1-84763-535-8